Busnes

Edexcel BTEC Lefel 2 Diploma

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Ysgol Ardudwy

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn cynnwys amrediad o bynciau perthnasol i fyd Busnes. Gweler yr enghreifftiau isod:
Uned 1 – Pwrpas Busnes
Uned 2 – Sefydliadau Busnes
Uned 3 – Rhagfynegiannau Cyllid ar gyfer Busnes
Uned 4 – Pobl mewn Sefydliadau
Uned 11 – Gwasanaethau Cwsmeriaid mewn Busnes
Uned 12 – Busnes Ar-lein
Uned 16 – Mentergarwch
Uned 20 – Rheoli Cyllid Personol

Sut byddaf yn dysgu?

Byddi yn dysgu drwy amrywiaeth o weithgareddau a dulliau dysgu cyfredol yn cynnwys gwaith prosiect ac aseiniadau, astudiaethau achos, asesiad byd gwaith, chwarae rôl a chyflwyniadau llafar.

Sut byddaf yn cael fy asesu?

Fe gei dy asesu gydol y cwrs drwy'r aseiniadau fydd yn cael eu rhoi i ti. Nid oes unrhyw arholiad o fewn y cwrs hwn. Mae'r cwrs hwn cyfwerth â 4 TGAU A* - C.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Bydd y cwrs hwn yn dy gynorthwyo i astudio Busnes yn y 6ed dosbarth neu Goleg. Fe allet ystyried astudio'r pwnc i safon Lefel A / AS neu gwrs BTEC Lefel 3.

Syniadau am swyddi

Syrfeiwr, Rheolwr Gwerthiant, Rheolwr Bar / Clwb, Cynghorydd Cyllid, Derbynydd, Rheolwr neu Gynghorydd i gwmni bychan, Hunan Gyflogedig.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr Robert Chidley-Williams, Ysgol Ardudwy

Ysgol Eifionydd Porthmadog